

## PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 12 Gorffennaf, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd P. Drake (Cadeirydd); Cynghorydd J.M. Norman (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, L. Burnett, V.P. Driscoll, R. Fisher, C.P. Franks, E. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.B. Marshallsea, M.J.G. Morgan, S.T. Wiliam a M.R. Wilkinson.

### EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd H.C. Hamilton.

### EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror, 2022 fel cofnod cywir.

### EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### EITEM AGENDA 4. DEDDF TIROEDD COMIN 2006 - CAIS I GOFRESTRU TIR YN FAES TREF NEU BENTREF – TIR YN THE BUTTS, Y BONT-FAEN (A ELWIR YN GAE CRICED YSGOL RAMADEG Y BONT-FAEN GYNT). (RGGC) –

PENDERFYNWYD – BOD y casgliadau a'r argymhellion yn Adroddiad yr Arolygydd yn cael eu derbyn a bod y Cais i gofrestru'r Tir fel maes tref neu bentref yn cael ei wrthod am fod yr Ymgeisydd wedi methu â bodloni'r profion statudol o dan adran 15(2) Deddf 2006.

### Y rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn i'r Cyngor fel Awdurdod Cofrestru Tir Comin gyflawni ei ddyletswydd i benderfynu ar y Cais yn unol â'r Ddeddf a Rheoliadau Tiroedd Comin (Cofrestru Meysydd Tref neu Bentref) (Trefniadau Interim) (Cymru) 2007.

EITEM AGENDA 5. CAIS AM GYMERADWYAETH FEL PROFWR  
MESURYDD CERBYD HACNI AWDURDODEDIG - A2Z TAXI VALE OF  
GLAMORGAN LTD (CAT) –

PENDERFYNWYD – BOD y cais gan A2Z Taxi Vale of Glamorgan Ltd yn cael ei gymeradwyo.

Y rheswm dros y penderfyniad

Rhoi mwy o ddewis i berchnogion Cerbyd Hacni ym Mro Morgannwg o ran profwyr mesuryddion cymeradwy.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

EITEM AGENDA 6. CANIATÁU TRWYDDEDAU – JW (CAT)  
(GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) -

PENDERFYNWYD – AR ôl ystyried ffeithiau'r adroddiad a pholisi'r Cyngor yn ofalus, ac ar ôl clywed gan JW, penderfynodd yr Aelodau nad oedd JW yn berson addas a phriodol i ddal Trwyddedau Gyrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

Y rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'r Awdurdod Trwyddedu yn gyson â'r canllawiau a fabwysiadwyd ar bennu Addaswydd Ymgeiswyr a Thrwyddedeion yn y diwydiant Cerbydau Hacni a Llogi Preifat. mewn perthynas â Thrwyddedau Gyrru.